ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Statistical Bulletin
Bwletin Ystadegol


SB 23/2016 08 Mehefin 2016

# Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15
# Llety a mesurau arbed ynni

Yn 2014-15, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys nifer o gwestiynau am y llety y mae pobl yn byw ynddo. Er enghraifft, pa mor fodlon yw pobl â'u cartref, pa un a ydynt yn ei rentu neu'n berchen arno. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau yn gofyn a oedd gan bobl unrhyw fesurau arbed ynni yn eu cartref. Er enghraifft, a oedd ganddynt waliau ceudod wedi'u hinsiwleiddio neu baneli solar.

Cafodd canlyniadau 2014-15 o'r arolwg eu cyhoeddi gyntaf ym mis Mehefin 2015. Mae'r bwletin hwn yn dadansoddi'r canlyniadau yn ymwneud â llety a mesurau arbed ynni yn fanylach.

**Canfyddiadau allweddol**




- Roedd 68% o bobl yn fodlon iawn â'u llety a 26% yn weddol fodlon (94% yn fodlon).
- Roedd 77% o berchen-feddianwyr yn fodlon iawn â'u llety, o'i gymharu â 52% o bobl mewn llety rhent preifat a 48% o'r rhai mewn tai cymdeithasol.
- Roedd 48% o bobl mewn llety rhent preifat yn fodlon iawn â'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a wnaed gan eu landlord, o'i gymharu â 38% o'r rhai mewn tai cymdeithasol.
- Dywedodd 86% o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol fod eu llety'n addas i'w hanghenion.
- Lle'r oedd hynny'n hysbys ac yn berthnasol, dywedodd 94% o bobl fod ganddynt insiwleiddiad to/atig, roedd gan 74% insiwleiddiad waliau ceudod a 31% insiwleiddiad waliau solet.
- Roedd pobl mewn llety rhent preifat yn llai tebygol o fod â mesurau arbed ynni na pherchen-feddianwyr neu'r rhai mewn tai cymdeithasol.
- Ar ôl cymryd ffactorau eraill i ystyriaeth, o ddadansoddi ymhellach gellid gweld bod y rhai sydd mewn amddifadedd materol yn llai bodlon â'u llety.

---

**Ystadegydd:** Hannah Stewart / Siobhan Evans **Ffôn:** 029 2082 6345 **E-bost:** arolygon@cymru.gsi.gov.uk
**Diweddariad Nesaf:** Nid yn allbwn rheolaidd
**Twitter:** www.twitter.com/statisticswales |www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 5050**
**www.llyw.cymru/ystadegau**

Issued by Knowledge and Analytical Services
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
**www.gov.wales/statistics**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys

Rhagymadrodd ..... 3
Bodlonrwydd â llety ..... 3
Llety rhent ..... 7
Dadansoddiad pellach – y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar fodlonrwydd â llety ..... 8
Gwasanaethau gofal cymdeithasol a llety ..... 11
Gwresogi a mesurau arbed ynni ..... 11
Gwybodaeth allweddol am ansawdd ..... 13
Termau a diffiniadau ..... 16

## Siartiau

Siart 1: Bodlonrwydd â llety ..... 3
Siart 2: Bodlonrwydd â llety, yn ôl deiliadaeth ..... 4
Siart 3: Bodlonrwydd â llety, yn ôl oedran ..... 4
Siart 4: Bodlonrwydd â llety, yn ôl amddifadedd materol ..... 5
Siart 5: Bodlonrwydd â llety, yn ôl bod â digon o arian i addurno'r cartref yn dda ..... 6
Siart 6: Bod ag yswiriant cynnwys y cartref, yn ôl gallu pobl i ymdopi â'u biliau ..... 6
Siart 7: Y gallu i fforddio yswiriant cynnwys, yn ôl deiliadaeth ..... 7
Siart 8: Bodlonrwydd â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio'r landlord, yn ôl deiliadaeth ..... 7
Siart 9: Math o ddeiliadaeth yn ôl y cyfnod o amser yn y cyfeiriad hwn ..... 8
Siart 10: Ffactorau sy'n dylanwadu ar fodlonrwydd â llety ..... 9
Siart 11: Gallu i wresogi'r cartref yn ôl deiliadaeth ..... 11
Siart 12: Mesurau arbed ynni, yn ôl deiliadaeth ..... 12

## Rhagymadrodd

Mae tai yn cael effaith bwysig ar iechyd, addysg, gwaith a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. Un o'r nodau a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yw helpu i sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn byw mewn llety o safon uchel. Pasiwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 ym mis Medi 2014 a phrif amcanion y ddeddf yw darparu:

- mwy o gartrefi;
- cartrefi o ansawdd gwell; a
- gwell gwasanaethau yn gysylltiedig â thai.

Cyflwynodd y Ddeddf gynlluniau newydd sy'n berthnasol i bob math o dai ac roeddent yn cynnwys:


- cynllun cofrestru gorfodol i landlordiaid yn y sector rhentu preifat;
- cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol o ran rhenti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety;
- helpu cymdeithasau tai i ddarparu tai; a
- chymorth ariannol i brynu tŷ.

I helpu i fesur effaith y ddeddfwriaeth, roedd Arolwg Cenedlaethol 2014-15 yn cynnwys rhai cwestiynau am fodlonrwydd pobl â'u llety.

## Bodlonrwydd â llety

Roedd un o'r cwestiynau yn yr arolwg yn edrych ar ba mor fodlon yw pobl â'u llety. Mae Siart 1 isod yn dangos bod pobl yn gyffredinol yn fodlon iawn (68%) neu'n weddol fodlon (26%) â'u llety, a bod cyfran fach ddim yn fodlon nac yn anfodlon (3%), yn weddol anfodlon (2%) neu'n anfodlon iawn (1%).


### Siart 1: Bodlonrwydd â llety




Dengys Siart 2 fod bodlonrwydd yn amrywio yn ôl y math o ddeiliadaeth. Roedd y mwyafrif o bobl yn fodlon â'u llety ar draws y tri math o ddeiliadaeth. Fodd bynnag, dywedodd cyfran uwch o bobl mewn tai rhent preifat a thai cymdeithasol mai gweddol fodlon yn unig oeddent â'u llety, o'u

cymharu â pherchen-feddianwyr. Roedd cyfran uwch o bobl mewn tai cymdeithasol yn anfodlon â'u llety (10%), tra nad oedd ond 1% o berchen-feddianwyr yn anfodlon.


**Siart 2: Bodlonrwydd â llety, yn ôl deiliadaeth**




Mae canran y bobl sy'n fodlon iawn â'u llety yn cynyddu gydag oed, fel y dangosir yn Siart 3. Fodd bynnag, o edrych ar gyfanswm y bobl sy'n fodlon (un ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon), mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd fawr o wahaniaeth ar draws y grwpiau oedran.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn hefyd yn Arolwg Tai Lloegr, lle gwelwyd patrwm tebyg. Yn In 2013-14, roedd 91% o bobl yn Lloegr yn fodlon â'u llety; roedd 94% o berchen-feddianwyr yn fodlon, 82% o'r rhai a oedd yn rhentu'n breifat, ac 81% o'r rhai a oedd yn rhentu tai cymdeithasol.[1]

**Siart 3: Bodlonrwydd â llety, yn ôl oedran**





[1] Cynhaliwyd Arolwg Tai Lloegr gyda chynrychiolydd y cartref (y sawl sy'n berchen ar y cartref neu'n ei rentu, y person hynaf neu'r sawl sy'n ennill fwyaf), nid gydag oedolyn 16+ oed a ddewiswyd ar hap fel a wnaed yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gallai'r gwahaniaeth hwn o ran ffurf gyfrannu at wahaniaethau yn y canlyniadau rhwng y ddau arolwg.

Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys nifer o gwestiynau sy'n cael eu defnyddio i roi darlun cyffredinol o ba mor amddifadus yn faterol[2] yw cartref. Mae'r rhain yn cynnwys cwestiynau megis a oes gan y sawl sy'n ymateb arian i gael dodrefn yn lle rhai sydd wedi mynd yn hen, neu a oes ganddynt ddigon o arian i gynilo £10 y mis neu fwy yn rheolaidd.

Mae'n ymddangos bod cysylltiad rhwng bodlonrwydd â llety a pha mor amddifadus yn faterol yw cartref. Mae'r canlyniadau yn Siart 4 yn dangos bod gwahaniaeth yn eu bodlonrwydd â'u llety rhwng y rhai sy'n byw mewn cartref amddifadus yn faterol a'r rhai nad ydynt yn byw mewn cartref felly. O edrych ar fodlonrwydd pobl â'u llety, roedd 73% o'r rhai nad ydynt mewn cartref amddifadus yn faterol yn fodlon iawn o'i gymharu â 44% o'r rhai sy'n byw mewn cartref sy'n amddifadus yn faterol.

**Siart 4: Bodlonrwydd â llety, yn ôl amddifadedd materol**





Roedd y lefelau anfodlonrwydd hefyd yn amrywio yn dibynnu ar ba un a oedd y cartref yn amddifadus yn faterol. Roedd y rhai sy'n amddifadus yn faterol yn fwy anfodlon â'u llety (7% yn weddol anfodlon, 4% yn anfodlon iawn) na'r rhai mewn cartrefi nad ydynt yn amddifadus yn faterol (1% y naill a'r llall).

Mae nifer o gwestiynau yn yr arolwg yn edrych ar allu pobl i gynnal a chadw'u cartref. Gofynnwyd i bobl a oedd ganddynt ddigon o arian i gadw'u tŷ wedi'i addurno'n dda. Roedd gwahaniaeth mawr rhwng y rhai oedd â'r arian i wneud hyn a'r rhai a hoffai ei wneud ond nad oeddent yn gallu fforddio hynny. Roedd 73% o'r bobl a allai fforddio cadw eu tŷ wedi'i addurno'n dda yn fodlon iawn, o'i gymharu â 58% o'r rhai nad oeddent eisiau / nad oedd angen iddynt wneud hynny, a 37% o'r rhai a ddwedodd yr hoffen nhw gadw'u tŷ wedi'i addurno'n dda ond na allent fforddio gwneud hynny. Mae'r canlyniadau o'r dadansoddiad hwn i'w gweld yn Siart 5.


[2] Ceir esboniad llawn yma o sut y caiff amddifadedd materol ei gyfrifo

**Siart 5: Bodlonrwydd â llety, yn ôl bod â digon o arian i addurno'r cartref yn dda**




Defnyddiwyd dau gwestiwn yn ymwneud â chyllid personol wrth gyfrifo amddifadedd materol. Roedd y cwestiynau hyn yn edrych ar y gallu i ymdopi â biliau ac ymrwymiadau ariannol a pha un a oedd gan y cartref yswiriant cynnwys. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Siart 6.


**Siart 6: Bod ag yswiriant cynnwys y cartref, yn ôl gallu pobl i ymdopi â'u biliau**




Mae'r siart yn dangos bod cydberthyniad rhwng anhawster i dalu biliau a pha un a oedd gan y cartref yswiriant cynnwys. O'r rhai oedd yn gallu ymdopi â'u biliau'n hawdd roedd gan 90% yswiriant cynnwys a dim ond 3% oedd yn dymuno cael yswiriant cynnwys ond yn methu'i fforddio. Mewn cymhariaeth, o'r rhai oedd â phroblemau ariannol gwirioneddol 33% oedd ag yswiriant cynnwys a byddai 58% wedi hoffi ei gael ond na allent ei fforddio.

Mae Siart 7 yn dangos y berthynas rhwng y math o ddeiliadaeth a pha un a oes gan gartref yswiriant cynnwys. Mae'r canlyniadau'n dangos gwahaniaeth amlwg ar draws y mathau o ddeiliadaeth – mae gan 96% o berchen-feddianwyr yswiriant cynnwys o'i gymharu â 55% o denantiaid mewn tai rhent preifat a 46% o bobl mewn tai cymdeithasol.


**Siart 7: Y gallu i fforddio yswiriant cynnwys, yn ôl deiliadaeth**




## Llety rhent


Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol neu lety rhent preifat pa mor fodlon oedden nhw â'r ffordd y mae eu cartref yn cael ei gynnal a'i gadw a'i atgyweirio gan y landlord. Mae'r canlyniadau'n dangos bod gwahaniaeth rhwng bodlonrwydd y rhai mewn tai cymdeithasol a'r rhai mewn llety rhent preifat. Fel sy'n wir am y lefelau bodlonrwydd cyffredinol a drafodwyd yn gynharach, roedd mwyafrif y bobl yn fodlon â'u llety. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng pobl mewn tai rhent preifat a thai cymdeithasol pan holwyd nhw am gynnal a chadw a gwaith atgyweirio. Mae Siart 8 yn dangos bod cyfran uwch o'r rhai a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol yn anfodlon â'r ffordd y mae'r landlord yn atgyweirio a chynnal a chadw'r cartref o'i gymharu â'r rhai sy'n byw mewn llety rhent preifat.

**Siart 8: Bodlonrwydd â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio'r landlord, yn ôl deiliadaeth**



Gofynnwyd i bobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol neu lety rhent preifat pa mor hir oedden nhw wedi byw yn eu cartref presennol. Mae Siart 9 yn dangos bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau fath o ddeiliadaeth ar ddau ben eithaf y raddfa. Roedd 41% o bobl mewn llety rhent preifat wedi byw yn eu cartref am lai na 12 mis, o'i gymharu ag 11% o'r rhai yn byw mewn tai cymdeithasol. Mewn cymhariaeth, roedd 44% o bobl mewn tai cymdeithasol wedi byw yn eu tŷ am 10 mlynedd neu fwy tra nad oedd ond 11% o bobl mewn tai preifat wedi byw yn eu cartref mor hir â hyn.

**Siart 9: Math o ddeiliadaeth yn ôl y cyfnod o amser yn y cyfeiriad hwn**




## Dadansoddiad pellach – y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar fodlonrwydd â llety

Drwy edrych ar y siartiau yn yr adrannau blaenorol, gallwn weld bod perthynas rhwng bodlonrwydd pobl â'u llety a'u hoedran, deiliadaeth, eu lefel o amddifadedd materol, a pha un a ydynt yn gallu fforddio cadw'u cartref wedi'i addurno'n dda.

Fodd bynnag, mae cysylltiad yn aml rhwng y ffactorau hyn a'i gilydd (er enghraifft, mae pobl sy'n amddifadus yn faterol hefyd yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr). Er mwyn deall effaith ffactor unigol yn gliriach, rydym wedi defnyddio dulliau ystadegol i wahanu effeithiau ffactorau neilltuol[3] ar fodlonrwydd pobl â'u llety. Mae'r dulliau hyn yn caniatáu inni edrych ar effaith un ffactor gan gadw ffactorau eraill yn gyson (dull sy'n cael ei alw weithiau'n "reoli ar gyfer ffactorau eraill").[4]


Canfuom mai'r canlynol oedd y ffactorau allweddol oedd yn dylanwadu ar fodlonrwydd pobl â'u llety:

- math o ddeiliadaeth;
- amddifadedd materol cartref;
- bodlonrwydd â bywyd yn gyffredinol;
- amddifadedd ardal (a fesurir drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, MALlC);

[3] Mae rhestr lawn o'r ffactorau yr edrychom arnynt i'w gweld yn Gwybodaeth allweddol am ansawdd
[4] Gelwir y dull hwn yn atchweliad logistaidd. Mae rhagor o wybodaeth am y dull i'w weld yn Gwybodaeth allweddol am ansawdd

- teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eich pen eich hyn yn yr ardal leol wedi iddi dywyllu; a
- barn ynglŷn â pha un a yw'r awdurdod lleol yn gwneud popeth a all i wella'r ardal leol.

**Siart 10: Ffactorau sy'n dylanwadu ar fodlonrwydd â llety**



Mae Siart 10 yn dangos pa mor debygol yw pobl o fod yn fodlon â'u llety, yn ôl pob un o'r ffactorau hyn, ar ôl inni reoli ar gyfer yr holl ffactorau eraill. Mae'r llinell doredig goch fertigol yn dangos prif ffigur yr arolwg drwyddo draw (94%) o ran bodlonrwydd â llety. Drwy ddefnyddio'r llinell hon i gymharu mae modd gweld sut mae pob un o'r ffactorau hyn (pan fydd y lleill yn cael eu dal yn gyson) yn debygol o effeithio ar fodlonrwydd pobl â'u llety.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond o 80% i 100% y mae'r raddfa ar y siart hon yn mynd, er mwyn canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng y ffactorau. Ychwanegwyd cyfyngau hyder sy'n cael eu dangos fel barrau cyfeiliornad i ddangos yr amrywiad tebygol ym mhob canlyniad. Pan nad yw cyfyngau hyder dau ymateb posibl i'r un cwestiwn yn gorgyffwrdd, mae'n awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad yn arwyddocaol yn ystadegol.[5]

Pan fyddwn yn rheoli ar gyfer yr holl ffactorau hyn, mae Siart 10 yn dangos bod perchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'u llety na'r rhai sy'n rhentu'n breifat neu mewn tai cymdeithasol. Dylid nodi nad oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng bod mewn tai cymdeithasol neu rentu, ar ôl inni reoli ar gyfer pob ffactor arall.

Roedd pobl oedd â lefel uchel o fodlonrwydd â bywyd hefyd yn fwy tebygol o fod yn fodlon â'u llety na'r rhai oedd â lefelau bodlonrwydd isel â bywyd, o ddal pob ffactor arall yn gyson.

Mae lefelau amddifadedd hefyd yn effeithio ar fodlonrwydd â llety. Mae amddifadedd y cartref ac amddifadedd ardal yn effeithio ar wahân ar fodlonrwydd â llety. Mae effaith amddifadedd yn amlycach wrth edrych ar amddifadedd y cartref nag amddifadedd ardal. Mae pobl mewn cartrefi amddifadus yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u llety. Mae'r siart hefyd yn dangos bod patrwm amlwg rhwng amddifadedd ardal a bodlonrwydd pan fydd pob ffactor arall yn cael ei ddal yn gyson – mae'n dangos gwahaniaeth bach ond arwyddocaol wrth gymharu lefelau bodlonrwydd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Roedd y dadansoddiad hefyd yn dangos, ar ôl rheoli ar gyfer y ffactorau eraill sydd wedi'u crybwyll, fod pobl sy'n teimlo'n anniogel yn cerdded yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u llety.

Canfyddiad arall oedd bod pobl a oedd yn cytuno bod eu hawdurdod lleol yn gwneud popeth a allai i wella'u hardal leol yn fwy bodlon â'u llety. I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a oedd yn anghytuno bod yr awdurdod lleol yn gwella'u hardal yn llai bodlon â'u llety.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gwella'n dealltwriaeth o ganlyniadau'r arolwg ac yn cadarnhau llawer o'r tueddiadau a drafodwyd yn gynharach yn y bwletin. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn ein galluogi i ddehongli'r canlyniadau gyda mwy o sicrwydd drwy ystyried un ffactor ar ei ben ei hun a dal y ffactorau eraill yn gyson. Er enghraifft, mae Siart 2 yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd â lety – mae'r canrannau'n amrywio yn ôl y math o ddeiliadaeth gyda 77% o berchen-feddianwyr yn fodlon iawn, 52% o rentwyr preifat a 48% o bobl mewn tai cymdeithasol. Fodd bynnag, heb ddadansoddi ymhellach nid yw'n glir ai deiliadaeth sydd wrth wraidd hyn ynteu ryw ffactor arall (er enghraifft, mae pobl sy'n amddifadus yn faterol hefyd yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr). Mae canlyniadau'r dadansoddiad atchweliad a ddangosir yn Siart 10 yn

[5] Gweler Gwybodaeth allweddol am ansawdd

cadarnhau bod gwahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau deiliadaeth, ar ôl cymryd ffactorau eraill fel amddifadedd materol i ystyriaeth.


## Gwasanaethau gofal cymdeithasol a llety

Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau am wasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd un o'r cwestiynau hyn yn edrych ar addasrwydd llety i ddiwallu anghenion pobl sy'n cael gofal cymdeithasol (un ai'r sawl oedd yn ymateb neu rywun arall yn y cartref). Cytunai 86% o ymatebwyr sy'n cael gofal cymdeithasol fod eu llety yn addas (54% yn cytuno'n gryf a 32% yn tueddu i gytuno). Mewn cymhariaeth, pan ofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhai sy'n gofalu am rywun ar eu haelwyd roedd 72% yn cytuno (42% yn cytuno'n gryf a 31% yn tueddu i gytuno) fod y llety yn addas ar gyfer y sawl yr oedden nhw'n gofalu amdano. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma am wasanaethau gofal cymdeithasol a llety.

## Gwresogi a mesurau arbed ynni

Fel y trafodwyd yn gynharach, gofynnwyd nifer o gwestiynau am amddifadedd materol y cartref. Un o'r cwestiynau hyn oedd pa un a oedd gan bobl ddigon o arian i gadw'u cartref yn ddigon cynnes yn y gaeaf. Mae Siart 11 yn dangos, er bod gan y rhan fwyaf o bobl ddigon o arian i wresogi'u cartref, fod gwahaniaeth ar draws y mathau o ddeiliadaeth gyda 96% o berchen-feddianwyr â digon o arian i wneud hyn, 89% o denantiaid mewn llety rhent preifat, ac 87% o'r rhai mewn tai cymdeithasol.

**Siart 11: Gallu i wresogi'r cartref yn ôl deiliadaeth**




Yn 2014-15 roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau newydd am fesurau arbed ynni yn y cartref. Roedd y rhain yn ymdrin â phaneli solar, insiwleiddiad to/atig, insiwleiddiad waliau ceudod ac insiwleiddiad waliau solet. Roedd Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 Llywodraeth Cymru yn cynnwys addewid i leihau nifer yr aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru, ac i weithredu i gyrraedd y targed na fydd unrhyw gartref, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm, yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2018. Ystyrir bod cartref mewn tlodi tanwydd os yw'n gwario 10% neu fwy o'i incwm net ar gostau ynni.


Ynghyd â gweithio gyda chwmnïau pŵer i ostwng costau, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru. Mae dau gynllun yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n

canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni, sef NEST ac ARBED. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yma.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd eu hatig, eu waliau ceudod neu waliau solet wedi'u hinsiwleiddio, ac a oedd ganddynt baneli solar neu fesurau eraill sy'n darparu ynni adnewyddadwy. Cafwyd cyfran uwch o atebion 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau hyn nag i lawer o gwestiynau eraill yn yr arolwg. Nid oedd 13% yn gwybod a oedd eu waliau ceudod wedi'u hinsiwleiddio ac nid oedd 15% yn gwybod a oedd eu waliau solet wedi'u hinsiwleiddio. Lle'r oedd ymatebwyr yn gwybod pa fesurau arbed ynni oedd yn bresennol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod gan:

- 94% o bobl insiwleiddiad to/atig;
- 74% insiwleiddiad waliau ceudod;
- 31% o bobl insiwleiddiad waliau solet; a
- 4% o'r holl eiddo baneli solar neu fesurau eraill ynni adnewyddadwy.

**Siart 12: Mesurau arbed ynni, yn ôl deiliadaeth**




Roedd cartrefi ag amddifadedd materol yn llai tebygol o fod ag insiwleiddiad to/atig a/neu insiwleiddiad waliau ceudod na chartrefi heb amddifadedd materol. O ran insiwleiddiad to/atig roedd canran y rhai ag amddifadedd materol yn 89%, o'i gymharu â 95% o gartrefi heb amddifadedd materol. Roedd gan 69% o bobl mewn cartrefi ag amddifadedd materol insiwleiddiad waliau ceudod o'i gymharu â 75% o bobl mewn cartrefi heb amddifadedd materol.

Dywedodd 94% o'r rhai a oedd yn gwybod pa un a oedd eu to wedi'i insiwleiddio fod hynny'n wir. Cafwyd canlyniad tebyg yn Arolwg Byw yng Nghymru 2008 (91%).[6] Rhoddodd Arolwg Cenedlaethol 2014-15 gyfanswm o 74% o ran insiwleiddiad waliau ceudod (lle'r oedd y sawl oedd yn ymateb yn gwybod a oedd y waliau wedi'u hinsiwleiddio ai peidio). Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers Arolwg Byw yng Nghymru 2008 (52%) ac roedd y canlyniad hwnnw yn ei dro yn gynnydd o'i gymharu â ffigur 2004 o 42%.

[6] Cynhaliwyd Arolwg Byw yng Nghymru gyda chynrychiolydd y cartref (y sawl sy'n berchen ar y cartref neu'n ei rentu, y person hynaf neu'r sawl sy'n ennill fwyaf), nid gydag oedolyn 16+ oed a ddewiswyd ar hap fel a wnaed yn yr Arolwg Cenedlaethol. Gallai'r gwahaniaeth hwn o ran ffurf gyfrannu at y gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng y ddau arolwg.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Cynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar gyfweliadau a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2014 a 12 Ebrill 2015 (cafodd y gwaith maes ei ymestyn ychydig y tu hwnt i flwyddyn, er mwyn cynyddu maint y sampl).

Dewiswyd tua 25,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref, a chynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cwblhawyd cyfanswm o 14,285 o gyfweliadau. Roedd y gyfradd ymateb drwyddi draw yn 64%.[7]

### Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r canrannau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio. Mae sawl rheswm pam na cheir ateb i gwestiynau. Mae'r rhesymau'n cynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ateb cwestiwn neilltuol ac achosion lle nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn o anghenraid yn awgrymu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddi manylach i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i wneud iawn am y tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a gwneud iawn am ddiffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

### Ansawdd y data

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol.

Gellir dehongli'r dynodiad yn fras i olygu bod yr ystadegau:
- yn diwallu'r gofynion a nodwyd gan ddefnyddwyr;
- wedi eu hesbonio'n dda a'u bod yn hygyrch;
- wedi eu cynhyrchu drwy ddulliau cadarn; ac
- yn cael eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er lles y cyhoedd.

Unwaith y  caiff ystadegau eu dynodi'n Ystadegau Gwladol, mae gofyniad statudol i barhau i ddilyn y Cod Ymarfer.

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg ynghyd â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau.

[7] Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Technegol am sut y caiff y gyfradd ymateb ei chyfrifo.

## Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu.[8] Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Caiff y cyfyngau hyn eu cyfrifo o amgylch amcangyfrif o arolwg ac maent yn rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi cael eu cynnwys yn y tablau o ganlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd ar StatsCymru**.**

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddant efallai yn ateb yn gywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr Adroddiad ansawdd ar yr arolwg.

## Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y ceir casgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau wrth wirio a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn hytrach na chynnal prawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan mae gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wneir cymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yn ei dileu).

## Atchweliad logistaidd

Mae gwahanol fathau o ddadansoddiad atchweliad a ddefnyddir i ddibenion gwahanol. Gelwir y math a ddefnyddiom ni yma yn atchweliad logistaidd deuaidd. Dyma'r dechneg atchweliad a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin gyda data arolwg.

Fe ddefnyddiom ni atchweliad logistaidd i ynysu effeithiau uniongyrchol ffactorau unigol (er enghraifft, oed a rhyw) ar ganlyniad penodol (er enghraifft, bodlonrwydd â llety). Mae'n caniatáu inni edrych ar effaith pob ffactor yn unigol gan gadw amryw o ffactorau eraill yn gyson.

Ar ôl ystyried ystod eang o ffactorau o ganlyniadau'r arolwg, y rhai sy'n dylanwadu fwyaf ar fodlonrwydd â llety yw: math o ddeiliadaeth, amddifadedd materol cartref, Mynegai Amddifadedd

[8] Trafodir cyfeiliornad samplu yn fanylach yn yr Adroddiad Ansawdd ar yr Arolwg Cenedlaethol.

Lluosog Cymru (MALlC), bodlonrwydd cyffredinol â bywyd, teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eich pen eich hun yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu ac i ba raddau y teimlir bod yr awdurdod lleol yn gwneud popeth a all i wella'r ardal leol.

Gan ddefnyddio'r model ystadegol a gynhyrchwyd, roedd modd wedyn inni archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a bodlonrwydd â llety, drwy addasu'r gwerthoedd yn y model ystadegol ar gyfer pob ymatebydd. Weithiau caiff hyn ei alw'n effaith ymylol gyfartalog. Mae'r canlyniadau'n dangos pa nodweddion/sefyllfaoedd sydd â'r dylanwad cryfaf ar y cwestiwn gwreiddiol (e.e. bodlonrwydd â llety) pan fydd pob ffactor arall yn y model yn cael ei ddal yn gyson.

Gellir cael rhagor o fanylion am sut y gwnaed y dadansoddi drwy ofyn.

**Adroddiad technegol**
Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr adroddiad technegol ar yr arolwg.

**Diwygiadau**
Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi diwygiadau ar gael yma.

**Polisi rhyddhau**
Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar we dudalennau ystadegau Llywodraeth Cymru.

**Argaeledd setiau data**
Cyhoeddir y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn taenlenni ar StatsCymru.

Mae fersiwn heb enwau o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, wedi cael ei chadw yn Archif Data'r DU. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

**Defnydd pellach o'r canlyniadau**
Caiff y canlyniadau eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent yn berthnasol hefyd i amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion allanol eraill.

**Cyswllt**
Siobhan Evans
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 6345
E-bost: surveys@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.gov.wales/nationalsurvey

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Statws Ystadegau Gwladol**

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Termau a diffiniadau

**Cartref**

Diffinnir cartref fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu gofal tŷ – sef, rhannu lolfa neu ystafell fyw neu o leiaf un pryd y dydd.

**Pobl**

Yn y bwletin hwn, mae 'pobl' yn cyfeirio at oedolion 16 oed a throsodd.

**Amddifadedd materol**

Caiff y sgôr amddifadedd materol ei gyfrifo fel bod person sy'n gallu fforddio popeth a restrwyd yn siart 28 o'r prif ganlyniadau yn cael sgôr o 0 a pherson sydd eisiau'r eitemau hyn ond nad ydynt ganddo yn cael sgôr o 100. Rhoddir sgôr uwch i gartrefi nad oes ganddynt yr eitemau hynny sydd gan y rhan fwyaf o gartrefi yn barod. Caiff y rhai sydd â sgôr o 25 neu fwy eu ystyried yn 'amddifadus yn faterol'. Cymerwyd y gyfres o gwestiynau o'r Arolwg Adnoddau Teulu ac maent yn edrych ar amddifadedd materol cartrefi a phlant.

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**

Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) fel y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd. Felly, mae MALIC yn seiliedig ar wyth math gwahanol o amddifadedd, sef: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Rhennir Cymru yn 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) a cheir tua 1,600 o bobl ym mhob un. Cyfrifwyd graddau amddifadedd ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn: rhoddir gradd 1 i'r ACEHI fwyaf difreintiedig, a 1,909 i'r lleiaf difreintiedig. Ar gyfer y bwletin hwn, rydym wedi grwpio'r bobl sy'n byw yn yr 20% o ACEHI sy'n fwyaf difreintiedig yn ôl sgôr MALIC a'u cymharu â'r 20% o'r ACEHI sy'n lleiaf difreintiedig